Iechyd plant a phobl ifanc
Sir Fynwy

Yn 2011, roedd tua 25,200 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 24 oed yn byw yn Sir Fynwy. Mae hyn yn cyfrif am 27.5% o boblogaeth yr ardal, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 30.3%.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Rhaid i unrhyw ystyriaeth o'r plentyn gynnwys y teulu hefyd gan fod rôl y teulu'n hollbwysig.

Yng Nghymru:

- mae mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yng Nghymru yn iach ac yn fodlon ar eu bywydau
- mae un o bob pump o blant a phobl ifanc rhwng 0-19 oed yn byw mewn tlodi
- dim ond hanner y babanod newydd-anedig sy'n cael eu bwydo ar y fron
- mae llawer o blant hyn yn parhau i fod yn agored i gael clefydau y gellir eu hatal drwy frechlyn fel y frech goch
- mae mwy na chwarter y bobl ifanc 16-24 oed yn ysmygu

Mae angen camau cydgysylltiedig rhyngasiantaethol yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn gwella iechyd plant a phobl ifanc a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno. Mae gweithio gyda phlant a theuluoedd yn hollbwysig er mwyn adeiladu ar asedau ac ymdrin â'u hanghenion.

Dylid darllen y proffil awdurdod lleol hwn ar y cyd â'r adroddiad *Iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru* a'r canllaw technegol atodol y gellir cael mynediad iddo drwy wefan yr Arsyllfa yn: **www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/proffilplant**

Data allweddol o Gyfrifiad 2011

	Cyfrif ALl (n)	ALl %	Cymru %
Y boblogaeth 0-24 oed [1, a]	25,200	27.5	30.3
Aelwydydd unig riant [2, b]	2,060	5.4	7.5
Aelwydydd gorlawn â phlant dibynnol [3, b]	460	28.8	26.3
Pobl ifanc 16-24 sy'n ddi-waith [4, b]	740	14.5	15.7
Plant a phobl ifanc 0-24 oed sy'n darparu gofal di-dâl [5, b]	690	2.8	3.2

Amddifadedd ymysg plant[6, c]

Ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, cyfrif cyfartal, pumedau cenedlaethol o amddifadedd



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio MALIC (Llywodraeth Cymru)
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013. Arolwg Ordnans 100044810

Dangosyddion (mae pob un yn defnyddio data 2011): 1. % o gyfanswm y boblogaeth; **2.** % yr aelwydydd sy'n cynnwys rhieni unigol â phlant dibynnol (0-15 oed neu 16-18 oed ac mewn addysg llawn amser); **3.** % yr aelwydydd â phlant dibynnol (0-15 oed neu 16-18 oed ac mewn addysg llawn amser) sydd â mwy nag 1.5 o bobl ym mhob ystafell wely; **4.** Nid yw'n cynnwys myfyrwyr; **5.** % sy'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill neu sy'n rhoi help i'r bobl hynny oherwydd salwch meddyliol neu gorfforol neu anabledd hirdymor, neu broblemau'n ymwneud â henaint; **6.** Mynegai Plant Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2011 sy'n cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud ag incwm, iechyd, addysg, mynediad daearyddol i wasanaethau, tai, yr amgylchedd ffisegol a diogelwch cymunedol.

Ffynonellau data: a. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (ONS); **b.** Cyfrifiad 2011 (ONS); **c.** Mynegai Plant Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (Llywodraeth Cymru).

Sut mae ardal yr Awdurdod Lleol (ALl) yn cymharu â Chymru gyfan?

Is | Cymaradwy | Uwch | Nid oedd modd ei gyfrifo

		Cyfrif ALl (nifer y digwyddiadau)	Cyfradd ALl	Cymru			Tuedd
				Cyfradd isaf ALl	Cyfradd gyfartalog	Cyfradd uchaf ALl	ALl / Cymru
Poblogaethau a genedigaethau	% y boblogaeth 0-24 oed [1,a]	25,200	27.5	26.2	30.3	35.5	28.4 → 27.5
	% y babanod a anwyd cyn pryd [2,b]	70	9.1	5.2	7.1	9.3	8.2 → 9.1
	% y babanod â phwysau geni isel [3,b]	40	4.7	4.6	5.4	6.8	4.6 → 4.7
	% y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron ar ôl cael eu geni [4,b]	340	57.6	28.2	55.5	79.6	58.9 → 57.6
Ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd	% y plant sy'n byw mewn tlodi [5,c]	2,425	13.1	13.1	22.2	30.4	2009: 22.7 / 26.6; 2010: 22.2 / 13.1
	Plant mewn angen [6,a,ch]	490	260	130	320	515	265 → 260
	% y plant a'r bobl ifanc 5-15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim [7,d]	1,100	11.9	11.1	19.3	29.1	11.0 → 11.9
	Sgôr cyflawniad addysgol yn CA4 [8,d]	dd/g	424	343	406	470	Ddim ar gael
	Y rhai sy'n gadael blwydd 11 heb fod mewn addysg, cyflgoaeth na hyfforddiant [9,dd]	30	3.8	2.7	4.4	7.7	4.0 → 3.8
Ymddygiad ac imiwneiddio	% y plant 4/5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew [10,e]	180	22.0	22.0	28.2	33.8	Ddim ar gael
	Beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau <18 [11,a,f]	30	18.1	18.1	34.2	54.1	32.3 → 18.1
	% y plant 4 oed sydd wedi cael eu holl frechiadau [12,ff]	800	83.8	78.0	82.4	88.3	Ddim ar gael
	Y nifer sydd wedi cael 3 dos o'r brechlyn HPV [13,ff]	400	76.5	76.5	86.6	92.5	63.3 → 76.5
Iechyd a'r defnydd o wasanaethau	Y nifer sy'n dioddef o asthma (0-24 oed) [14,g]	1,250	50.9	43.3	51.6	69.5	Ddim ar gael
	Plant 5 oed â dannedd pydredig, ar goll neu wedi'u llenwi [15,ng]	420	1.0	0.9	1.6	3.1	2007/8: 2.0 / 1.3; 2011/12: 1.6 / 1.0
	Cyfraddau derbyn i adrannau achosion brys (0-24 oed) [16,a,h]	2,190	95	73	100	140	76.6 → 95.1
Marwoaleth	Cyfradd marwolaethau babanod*~ [17,i,l,ll]	<5	3.3	3.3	4.4	5.4	Cymru
	Cyfradd marwolaethau plant (0-17 oed) *~ [18,a,i]	<5	15.5	15.5	38.5	60.7	Cymru

* mae'r niferoedd yn rhy fach i gynhyrchu tuedd flynyddol ar lefel awdurdodau lleol ~ cyfrif cyfartalog blynyddol

Dangosyddion a chyfnodau amser (cyflwynir y cyfrifiadau a'r cyfraddau ar gyfer y flwyddyn dueddiadau olaf oni nodir yn wahanol); 1. % o gyfanswm y boblogaeth, 2002-2011; **2.** % y babanod a anwyd <37 wythnos o feichiogrwydd, 2004-2011; **3.** Genedigaethau byw plant unigol <2500g, 2003-2011; **4.** % y babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron pan gânt eu rhyddhau o ofal mamolaeth 2004-2011; **5.** % y plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n cael Credyd Treth Plant y mae eu hincwm yn llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol neu sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith 2009-2010; **6.** Cyfradd fesul 10,000 o blant 0-17 oed sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ac yr oedd eu hachos ar agor am o leiaf 3 mis ar ddyddiad y cyfrifiad, 2009/10-2011/12; **7.** % sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, 2003/4-2011/12; **8.** Sgôr cyrhaeddiad cyfartalog ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 (lefel TGAU), 2009/11; **9.** % y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2004-2011; **10.** % â mynegai mas y corff yn yr 85ain ganradd (UK1990) neu'n uwch, 2011/12; **11.** Cyfradd feichiogi fesul 1,000 o ferched 15-17 oed, 2002-2011 **12.** % sydd wedi cael eu holl frechiadau arferol, 2003-2012; **13.** % o flwyddyn ysgol 9 (merched 14 oed) sydd wedi cael y cwrs 3 dos o'r Brechlyn Feirws Papiloma Dynol, 2009/10-2012/13; **14.** % ar y gofrestr cyflyrau cronig asthma, Chwefror 2012; **15.** Nifer a archwiliwyd a nifer cyfartalog y dannedd sydd wedi pydru ar goll neu wedi'u llenwi, 2007/8 a 2011/12; **16.** Cyfraddau derbyniadau brys i'r ysbyty yn ôl oedran safonedig, 2002-2011; **17.** Cyfradd y marwolaethau ymysg plant <1 oed fesul 1,000 o enedigaethau byw, 2002-2011 wedi'u cyfuno ar gyfer awdurdodau lleol a thueddiadau blynyddoedd sengl 2002-2011 ar gyfer Cymru; **18.** Cyfradd y marwolaethau yn ôl oedran safonedig, 2009-2011 wedi'u cyfuno ar gyfer awdurdodau lleol a thueddiadau blynyddoedd sengl 2009-2011 ar gyfer Nghymru.

Ffynonellau data: a. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (ONS); **b.** Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Iechyd Plant Cymunedol (NWIS); **c.** Data yr Adran Gwaith a Phensiynau a Budd-dal Plant (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi); **ch.** Cyfrifiad Plant mewn Angen (Llywodraeth Cymru) **d.** Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Llywodraeth Cymru); **dd.** Gyrfa Cymru (Llywodraeth Cymru); **e.** Y Rhaglen Mesur Plant (Iechyd Cyhoeddus Cymru ac NWIS) **f.** Babanod a Genhedlwyd (ONS); **ff.** Cynllun adroddiadau COVER Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru); **g.** Audit+ (NWIS); **ng.** Arolwg Deintyddol Cymru (WOHIU); **h.** Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (NWIS); **i.** Crynodeb Rhanbarthol Blynyddol o Farwolaethau (ONS); **l.** Ffeil Marwolaethau Iechyd Cyhoeddus (ONS); **ll.** Crynodeb Rhanbarthol Blynyddol o Enedigaethau (ONS).

NHS Wales GIG Cymru | Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales Observatory

© 2013 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn yr adroddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint teipograffyddol yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru **Ebost: arsyllfaiechydcyhoedduscymru@wales.nhs.uk**